Coleg Penybont
Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020

(Data o flwyddyn academaidd 2018–2019)

Byddwch bopeth y gallwch fod
Ysbrydoledig
Angerddol
Arloesol
Chwaraewr Tîm
Cynhwysol

Cynnwys

1. Rhagair gan y Pennaeth 3
2. Am y Coleg 4
3. Y Gyfraith 5
4. Sut mae Coleg Penybont yn rheoli a chynorthwyo amrywiaeth a chydraddoldeb 5
5. Gwybodaeth am y Staff 6

Dosbarthiad Rhyw Staff Coleg Penybont 7

Proffil Oedran yn ôl Rhyw 8

Proffil Ethnigrwydd 9

Anabledd 10

Crefydd 11

Statws Priodasol 12

Cyfeiriadedd Rhywiol 13

Cenedligrwydd 14

6. Gwybodaeth am y Myfyrwyr 15
7. Ymgysylltiad ac Ymgynghoriad 18
8. Amcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 19
9. Deilliannau Cyraeddadwy Allweddol 20
10. Crynodeb 20
11. Cysylltwch â Ni 21

1. Rhagair gan y Pennaeth

Lle arbennig yw Coleg Penybont. Mae trin pobl yn deg, gyda pharch, a gwerthfawrogi gwahaniaeth yn bwysig iawn i ni yng Ngholeg Penybont. Mae ein gwerthoedd ‘Byddwch yn Bopeth y Gallwch Fod’ yn seiliedig ar hyrwyddo amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal, cefnogi myfyrwyr a staff sydd ag anghenion ychwanegol neu anableddau corfforol, a gwerthfawrogi’r manteision y mae amrywiaeth yn eu cynnig a sut mae’n cyfoethogi'r Coleg.

Simon Pirotte
Principal and CEO

Mae staff wedi bod yn glir iawn o ran sut le yr hoffent i’r Coleg fod. Maen nhw am weithio mewn sefydliad teg, lle mae pawb yn derbyn bod unigolion yn wahanol ac yn cefnogi ei gilydd i gyflawni eu hamcanion. Mae hyn yn rhan annatod o’r ffordd rydym yn gweithredu. Mae ein gwerthoedd, a luniwyd gan ein pobl, yn cynnwys bod yn chwaraewyr tîm, bod yn gynhwysol, a bod yn bobl-ganolog. Mae llwyddiant y Coleg hyd yn hyn yn seiliedig ar sylfaeni o oddefgarwch a pharch a phobl sy’n cefnogi ei gilydd. Mae cyflawni a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein Coleg yn ddyletswydd ar bob un ohonom, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnydd rydym wedi’i wneud hyd yn hyn, ac y byddwn yn parhau i’w wneud.

2. Am y Coleg

Mae Coleg Penybont yn sefydliad Addysg Bellach (AB) sydd yn cefnogi dros 6,000 o fyfyrwyr ac yn cyflogi dros 600 aelod staff ar draws ei bedwar campws ym Mhen-y-bont, Pencoed, Heol y Frenhines a Maesteg. Hyfforddiant Engage yw cangen fasnachol y Coleg, ac mae wedi'i leoli ar Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont.

Mae'r Coleg yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau, o lefel Mynediad i lefel Gradd, mewn dros 20 maes galwedigaethol, a chaiff y mwyafrif eu cyflwyno ar ein campysau Penybont a Phencoed. Gellir astudio'r cwrs BSc (Anrh) llawn-amser mewn Gwaith Cymdeithasol ar ein Campws Heol y Frenhines tra bod ein Campws Maesteg yn cynnig cyrsiau Lefel 1 llawn amser mewn Cyfryngau Rhyngweithiol ac Archwilio'r Sectorau Celfyddydau Creadigol a Chyfryngau. Mae'r Coleg yn cyflwyno mwy a mwy o gyrsiau hyblyg, yn y gweithle ac ar-lein trwy ein tîm Hyfforddiant Engage a chyfleoedd Learndirect.

Mae Coleg 6ed Dosbarth Penybont yn bartneriaeth rhwng Coleg Penybont ac Ysgol Gyfun Pencoed. Mae'r 6ed dosbarth yn darparu'r addysg, y profiadau dysgu a'r cyfleoedd gorau y gall y Coleg a'r ysgol eu cynnig.

Mae gan y Coleg fwy o fyfyrwyr addysg uwch masnachfraint na phob coleg AB arall yng Nghymru, gyda dros 850 yn dewis cwblhau eu cyrsiau addysg uwch yn lleol bob blwyddyn. Mae'r Coleg yn bartner cydweithredol â Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Gwobrau a Chydnabyddiaeth

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ennill nifer o wobrau mawreddog ac rydym yn hynod falch o bopeth a wnawn yma ar gyfer ein myfyrwyr a'n staff. Dyma restr o wobrau ac acolâdau yr ydym wedi eu hennill yn ddiweddar:

- Rhestr y Times o'r 100 cwmni gorau i weithio iddynt – safle 24 (2019)
- Indecs Lles y Gweithle yr elusen Mind 2019, Gwobr Aur
- Arweinydd Hyderus o ran Anabledd
- Cyflogwr Chwarae Teg (Gwobr Arian)
- Cyfraddau llwyddiant 90% ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith (2019) – ynghyd â chynnydd o 800% mewn gwerth y contract dros gyfnod o 6 mlynedd
- Gwobr 'Coleg DU'r Flwyddyn' gan Times Educational Supplement (2019)
- Mae 98% o'r staff yn hapus i weithio yng Ngholeg Penybont (Arolwg Staff 2018)
- Dyfarniad "Dwbl Rhagorol" gan Estyn (2016)
- Gwobrau Beacon Cymdeithas y Colegau (AOC):
  - Arwain a Llywodraethu (2017)
  - Sgiliau Trosglwyddadwy (2016)
  - Dysgu Ymarferol ac Addysgu Ymarferol (2015)
- Cyfraddau llwyddiant 90% (Holl Gymwysterau) (2016-2017)
- Partneriaeth lwyddiannus ag Ysgol Gyfun Pencoed i sefydlu Coleg 6ed Dosbarth Penybont; cynnydd o 26% yn nifer y graddau Safon Uwch A*-C

Diwylliant cadarnhaol y Coleg yw sylfaen y llwyddiannau hyn. Mae Coleg Penybont yn sefydliad cynhwysol sy'n dathlu amrywiaeth. Datblygodd y staff ein cenhadaeth "Byddwch Bopeth y Gallwch Fod" drwy gyfres o weithdai – ac maen nhw'n ei golygu ar gyfer pob un o'n dysgwyr. Fodd bynnag, nid ydym yn fodlon gorffwys ar ein bri; mae'n rhaid i ni barhau i symud ymlaen gyda'r oes fel sefydliad ystwyth ac ymatebol.

3. Y Gyfraith

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Mae'n nodi'r ffyrdd gwahanol y mae'n anghyfreithlon trin pobl. I gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sut mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus, a dyletswyddau penodol Coleg Penybont o dan y Ddeddf, dilynwch y ddolen yma.

4. Sut mae Coleg Penybont yn Rheoli a Chynorthwyo Cydraddoldeb

Ein Staff

- Mae Coleg Penybont yn falch i fod yn gyflogwr "Hyderus o ran Anabledd", sy'n dangos agwedd agored y Coleg tuag at gyflogi pobl, heb ystyried eu hanableddau. Rydym hefyd yn parhau yn ein gwaith gyda'n partneriaid i estyn i'r gymuned i ddarparu cyfleoedd lleoliad gwaith.

- Rydym yn gweithio'n galed i ddatstigmateiddio iechyd meddwl yn y gweithle trwy'r addewid "Amser i Newid", sesiynau paned a sgwrs, "Cerdded yn fy Sgidiau", hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl, dyddiau DPP i wella lles pob aelod staff.

- Rydym yn ymgymryd â'r Siarter Iechyd Meddwl a Lles, a grëwyd gan Gymdeithas y Colegau, er mwyn gweithredu mewn modd cyfunol ynghylch Iechyd a Lles staff a myfyrwyr.

- Cymerodd Coleg Penybont ran yn Indecs Lles y Gweithle gyda'r elusen Mind yn 2018, gan ennill safon Efydd, cyn gwella ac ennill y wobr Arian yn 2019. Ni yw'r sefydliad addysgiadol cyntaf yng Nghymru i gymryd rhan yn y cynllun, ac rydym yn gobeithio annog i rai eraill ddilyn ein hesiampl.

- Buom yn gweithio gydag elusen Chwarae Teg i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gwella cyfleoedd yn y gweithle i staff sydd ag unrhyw nodweddion gwarchodedig. Enillom Statws Arian.

- Rydym wedi ymrwymo i Safonau'r Gymraeg ac yn gweithio i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yng ngweithgareddau'r sefydliad i gyd.

- Safon Iechyd Corfforedig Aur – caiff hyn ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n nodi ansawdd hyrwyddo iechyd yn y gweithle yng Nghymru. Rydym yn parhau i feddu ar y Safon Aur.

- Cymerodd nifer o aelodau staff y Coleg ran yn yr orymdaith Pride yng Nghaerdydd yn 2019 gyda'u teuluoedd.

Ein Myfyrwyr

- Cydweithio gydag ARC ('Assistive Recovery in the Community' ar gyfer oedolion sydd ag anawsterau iechyd meddwl). Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, ac arbenigwyr iechyd meddwl ymroddgar sy'n gweithio gyda myfyrwyr sydd â diagnosis neu anawsterau iechyd meddwl cymhleth.

- Rydym wedi datblygu amgylchedd cefnogol a diogel lle mae dysgwyr yn gallu trafod materion iechyd meddwl a chael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau yn brydlon.

Mae hyn yn galluogi pobl i fod y fersiwn gorau o'u hunain, a thrwy hynny yn cynorthwyo eu profiad dysgu gyda ni.

- Grŵp cefnogi LGBTQ+.

- Cyfoethogi – Pasbort Lles (Rheoli Arian / Cyllidebu, Ymwybyddiaeth o Sylweddau, Lles yn y Coleg, Diogelwch ar y Rhyngrwyd, Perthnasau Iach).

- 'Cerbyd Barn' i gefnogi dadleuon myfyrwyr a rhannu syniadau

- Sesiynau Galw Heibio yn yr adran Les ar gael pob dydd rhwng 12yp a 2yp.

- Strategaeth Llais y Dysgwr – Dweud eich Dweud, cynrychiolwyr cyrsiau, StARs, Bwrdd Llywodraethu'r Myfyrwyr a Llysgenhadon Coleg Penybont. Mae hyn yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr godi unrhyw bryderon sydd ganddynt ac i ddweud eu dweud. 'Dwedoch Chi, Gwnaethom Ni'.

- Fideo #MeddwlDwywaith, a ddangosir ar sgriniau teledu yn y ffreutur: https://www1.bridgend.ac.uk/think-twice/

- Codi ymwybyddiaeth myfyrwyr fel rhan o ddyddiau ac wythnosau ymwybyddiaeth cenedlaethol a rhyngwladol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ac Wythnos Gwrthfwlio.

Gwybodaeth am y Staff

Mae'r Coleg wedi cymryd y camau canlynol i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol:

- Casglu data perthnasol oddi wrth aelodau staff;
- Casglu data perthnasol oddi wrth fyfyrwyr;
- Arolygon staff a myfyrwyr.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi proffil o staff y Coleg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-2019 o ran y nodweddion gwarchodedig, h.y. 1 Awst 2018 i 31 Gorffennaf 2019. Ni allwn adrodd am y data ar gyfer 2019-2020 gan nid yw hyn yn dilyn yr un amserlen adrodd â'r Adroddiad Cydraddoldeb.

Anawsterau ynghylch casglu data staff am nodweddion gwarchodedig

Anogir staff i ddiweddaru eu data sensitif ar y system hunanwasanaethu Adnoddau Dynol, MyPage, yn flynyddol. Mae nifer o staff gennym sydd heb ddatgan eu data sensitif.

O ganlyniad, cyfeiriwyd at hyn yn y Cynllun Cydraddoldeb, gan ofyn i staff ddiweddaru eu gwybodaeth sensitif trwy ddefnyddio Google Form syml, ac esbonio iddynt bwrpas casglu'r data hyn ac ar gyfer beth y caiff y data eu defnyddio. Yn dilyn y cais hwn, cwblhawyd 170 ffurflen. Bydd y gwaith yma'n parhau er mwyn cefnogi staff i ddeall pam fod angen y wybodaeth yma ar y Coleg ac mai'r pwrpas yw eu cefnogi nhw ym mhopeth a wnânt.

Dros amser, disgwylir y bydd gan y Coleg set ddata gyflawn ar gyfer nodweddion gwarchodedig ei staff, tra'n diogelu hawl unigolion i ddweud na hoffent ddatgan y rhain.

5.1 Rhaniad Rhywiau'r Staff yng Ngholeg Penybont



Fel y gwelir yn y siart, mae mwyafrif o staff y Coleg yn fenywod.

Mae hyn yn gynrychiadol mewn 4 chwartel, ac mae mwy o wybodaeth ar gael yn ein Hadroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2018.

Cynyddodd canran y menywod a gyflogir o 62% i 67.43% yn 18/19.

5.2 Proffil Oedran



Fel y gwelir yn y siart, mae'r canran uchaf o staff yn y categori 46-54; 26.42%, sef gostyngiad o gymharu â 29% yn 2017/2018.
Bu gostyngiad hefyd yng nghanran y staff yn yr ail grŵp oedran, 36-45, o 26% i 23.4%.
Yn ddiddorol, cynyddodd canran y staff yn y grŵp oedran is, 26-36, o 16% i 19.3%.

Mae diddordeb mewn gwybod beth achosodd y newidiadau hyn, gan fod dros 56% o'r staff yn 45 neu'n uwch yn 2017/18, tra bod y canran bellach yn 48.14%, a byddir yn parhau i ymchwilio i hyn yn fanwl i brofi pam digwyddodd hyn. Mae'n galonogol fod proffil oedran y Coleg yn iach, ac mae'r canrannau hyn yn dystiolaeth o bolisi recriwtio agored sy'n denu ymgeiswyr ni waeth beth yw eu hoedran.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y tabl isod:

5.3 Proffil Oedran yn ôl Rhyw



Fel y gwelwyd yn y siart 'Rhaniad Rhywiau'r Staff' uchod, mae 67.43% o staff y Coleg yn fenywod, ac mae hyn yn amlwg yn y siart uchod 'Proffil Oedran yn ôl Rhyw', lle mae nifer sylweddol mwy o fenywod yn y prif grwpiau oedran na dynion, gyda mwy na dwbl yn y categorïau 36-45 a 46-54.

5.4 Proffil Ethnigrwydd



Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn i sicrhau nad yw Coleg Penybont yn rhwystro unrhyw bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, o recriwtio i gyfleoedd i ddysgu a datblygu a gwneud cynnydd yn y Coleg.

Mae 3.3% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried eu hunain yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Mae 1.56% yn y categoriau hyn, ond mae 4.95% o'r gweithlu naill ai wedi dewis peidio ateb neu wedi methu ag ateb y cwestiwn. Mae angen i'r Coleg wneud mwy o waith er mwyn bod yn fwy cynrychiadol o'r gymuned y mae wedi'i leoli ynddi, a nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb bod rhaid denu, cadw ac ymgysylltu â phoblogaeth amrywiol o ddysgwyr. Bydd diweddariadau ar gael mewn adroddiadau yn y dyfodol.

5.5 Proffil Anabledd



Fel y gwelir yn y tabl isod, mae nifer y staff sydd wedi datgelu anabledd yn isel.

Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud o safbwynt lles corfforol a meddyliol, gan gynnwys cyflawni ail gam y Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Rydym felly wedi gweld nifer cynyddol o ddatgeliadau gan staff presennol a staff newydd, felly mewn adroddiadau yn y dyfodol, disgwylir y bydd y nifer yma'n cynyddu.

Rydym yn gobeithio bod y data'n profi bod hwn yn weithle sy'n croesawu pobl sydd ag anableddau lle, gydag ymyraethau gan Iechyd Galwedigaethol, Mynediad i Waith, Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell, gellir rhoi addasiadau rhesymol ar waith a gall staff weithio mewn modd llwyddiannus a hapus, a chael eu cefnogi gyda'u cyflyrau.

Math o Anabledd	Nifer y Cyflogeion
Clyw	5
Anhawster dysgu	11
Cyflwr iechyd meddwl	16
Symudedd	10
Dim ateb	248
Dim anabledd	490
Arall (gan gynnwys salwch hir dymor)	32
Gwell gennyf beidio â dweud	16
Gweledol	1

5.6 Proffil Crefydd



Yn 2017/2018, ni nododd 197 aelod staff eu statws crefyddol, sy'n cyfateb i 39.96%. Fel y gwelir yn ystadegau eleni, mae'r ffigwr hwn, o ganlyniad i'r gwaith y mae'r Coleg wedi bod yn ei wneud, wedi gostwng yn sylweddol i 5.19%. Bydd y wybodaeth ddiweddaredig hon yn galluogi'r Coleg i sicrhau bod hawl y staff i addoli'n cael ei gwarchod a'i chefnogi'n briodol.

5.7 Proffil Statws Priodasol

Statws Priodasol	Nifer y Staff
Cyd-fyw	40
Wedi Ysgaru	38
Priod	409
Heb briodi / Partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw	88
Partner	33
Gwell gennyf beidio ag ateb	16
Wedi gwahanu	3
Wedi gwahanu – yn dal i fod yn briod yn gyfreithiol	6
Sengl	80
Gweddw	7
Dim ateb	109
Cyfanswm	829



Fel y gwelir, ni atebodd 125 aelod staff i ddatgan eu statws priodasol.

Mae hefyd angen gwneud ychydig o addasiadau i'r ffordd yr ydym yn casglu data. Er enghraifft, mae partneriaethau o'r un rhyw yn cael eu dosbarthu yn yr un grŵp â 'heb briodi'. Mae'r rhain yn gategorïau cwbl wahanol, felly mae'n rhaid gwneud mwy o waith i sicrhau bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli a'i gyfrif yn briodol.

5.8 Proffil Cyfeiriadedd Rhywiol



Yn 2017/2018, dywedodd 34.9% o'r staff bod gwell ganddynt beidio â datgan eu cyfeiriadedd rhywiol. Ar ôl ymdrechion i ofyn i staff rannu eu data sensitif, mae'r

Tra bod gan staff yr hawl i gadw'r wybodaeth yma'n breifat, oherwydd y diwylliant gwaith cadarnhaol a gyfeiriwyd ato yn arolwg yr elusen Mind a'r arolwg Times 100, a'r agenda ar gyfer cynwysoldeb yng nghynllun strategol y Coleg, efallai y bydd angen cynllunio gohebiaethau arbennig ar gyfer y nodwedd hon, er mwyn sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn gallu rhannu'r wybodaeth yma os hoffent, a'u bod yn cael eu cefnogi.

5.9 Proffil Cenedligrwydd

Eto, trwy rannu eu data sensitif mae staff wedi galluogi'r Coleg i gael proffil mwy cyflawn o ran nodweddion y staff, a fydd yn ein galluogi ni fel Coleg i gefnogi'r staff i fod y gorau y gallant fod.

Fel rhan atodol i'r set ddata yma, ar gyfer y rheini a nododd 'Cymreig' fel eu cenedligrwydd, byddwn yn casglu data ar eu gallu i gyfathrebu trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn ffurfio rhan o Safonau'r Gymraeg, yr agenda ar gyfer cynhwysiant, a bydd hefyd yn ein galluogi ni i ymgorffori dwyieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth. Caiff hyn ei gynnwys yn yr adroddiad yn 2021.



6. Gwybodaeth am y Myfyrwyr

Cynyddodd cyfradd cwblhad llwyddiannus y dysgwyr ar gyfer prif gymwysterau 2% i 86.3% yn 2018-19, gan ddangos cynnydd o 3% ers 2016-17. 86% oedd y gyfradd cwblhad llwyddiannus ar gyfer holl gymwysterau hefyd. Dangosodd y Datganiad Ystadegol Cyntaf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod cyfradd cwblhad llwyddiannus Coleg Penybont ar gyfer prif gymwysterau 6% yn uwch na'r Cymharydd Cenedlaethol.

Mae canlyniadau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr wedi parhau i gynyddu dros amser. Mae'r data a ddarperir o dan bob pennawd perthnasol isod yn cynrychioli cyfraddau cwblhad llwyddiannus prif gymwysterau ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Bellach (AB).

Er mwyn cael syniad gwirioneddol ynghylch a yw'r dysgwyr hynny sydd â nodweddion gwarchodedig yn cyflawni'n unol â'u cymheiriaid, cymharwyd cyfraddau llwyddiant y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig â chyfartaledd cyfradd prif gymwysterau'r Coleg ar gyfer y ddwy flwyddyn flaenorol. Yn y setiau data isod, amlygwyd cyfraddau cwblhau llwyddiannus y grwpiau o ddysgwyr a oedd wedi cwrdd â neu ragori ar y cyfraddau ar gyfer prif gymwysterau gyda'r lliw gwyrdd, tra bod y rhai na wnaeth hynny wedi'u hamlygu gyda'r lliw melyn.

6.1 Cyfraddau Llwyddo yn ôl Anghenion Dysgu Ychwanegol

Prif Grŵp Anabledd y Dysgwr	2016/17		2017/18		2018/19	
	Nifer y dysgwyr	Llwyddiant	Nifer y dysgwyr	Llwyddiant	Nifer y dysgwyr	Llwyddiant
Anhwylderau sbectrwm awtistig	79	89.6%	80	84.8%	88	89.8%
Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol	31	72.4%	53	87.5%	50	90.0%
Anawsterau dysgu cyffredinol	39	89.2%	53	86.8%	121	94.2%
Nam ar y clyw	10	90.0%	20	80.0%	19	94.7%
Anawsterau dysgu canolig	48	87.5%	54	84.0%	40	92.5%
Nam amlsynnwyr	0		2	50.0%		
Anawsterau corfforol a/neu feddygol	43	88.1%	47	85.4%	42	90.5%
Anawsterau dysgu dwys a lluosog	2	100.0%	1	100.0%	2	100.0%
Anawsterau dysgu difrifol	15	100.0%	10	100.0%	5	100.0%
Anawsterau lleferydd, iaith, a chyfathrebu	18	88.9%	28	100.0%	25	96.0%
ADP* – Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	29	61.3%	45	72.5%	46	84.8%
ADP – Dyscalcwlia	1	100.0%	2	100.0%	1	100.0%
ADP – Dyslecsia	82	89.4%	121	84.4%	130	90.8%
ADP – Dyspracsia	6	100.0%	5	100.0%	9	100.0%

Nam ar y golwg	**43**	**88.4%**	**47**	**76.6%**	**24**	**95.8%**
Cyfanswm yr holl ddysgwyr	**2304**	**82.1%**	**2382**	**83.3%**	**2281**	**86.3%**

Mae dysgwyr sydd ag ADY datganedig yn parhau i berfformio'n well na'r rheini sydd heb, gan gyflawni cyfradd cwblhad llwyddiannus o 90% yn 2018/19. Mae'r llwyddiant cynaledig hyn yn gysylltiedig â'r cymorth ychwanegol y mae dysgwyr sydd ag ADY yn ei gael, e.e. Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a chymorth penodol, targededig ar gyfer anghenion dysgu penodol. Y grŵp mwyaf o ddysgwyr ADY yw'r rheini sydd â dyslecsia, a oedd wedi cyflawni cyfradd llwyddo o 90.8%. Ac eithrio Anawsterau Dysgu Penodol (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd), mae'r data uchod yn dangos bod pob grŵp o ddysgwyr sydd ag ADY wedi cyflawni cyfraddau llwyddiant uwch na chyfartaledd y Coleg (86.3%).

6.2 Llwyddiant yn ôl Ethnigrwydd

Tarddiad Ethnig y Dysgwr	2016/17		2017/18		2018/19	
	Nifer y dysgwyr	Llwyddiant	Nifer y dysgwyr	Llwyddiant	Nifer y dysgwyr	Llwyddiant
Arabaidd	**3**	**100.0%**	**1**	**100.0%**	**4**	**75.0%**
Asiaidd – Bangladeshaidd	**1**	**0.0%**	**2**	**100.0%**	**4**	**75.0%**
Asiaidd – Indiaidd	**1**	**100.0%**	**0**		**4**	**100.0%**
Asiaidd – Pacistanaidd	**2**	**50.0%**	**1**	**100.0%**	**2**	**100.0%**
Du – Affricanaidd	**1**	**100.0%**	**5**	**100.0%**	**8**	**75.0%**
Du – Caribïaidd	**3**		**1**	**100.0%**	**7**	**71.4%**
Tsieinïaidd	**3**		**2**	**100.0%**	**7**	**71.4%**
Ni roddwyd gwybodaeth	**1**	**100.0%**	**1**		**1**	
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	**14**	**85.7%**	**7**	**85.7%**	**7**	**100.0%**
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	**3**	**66.7%**	**2**	**100.0%**	**6**	**100.0%**
Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd	**10**	**90.0%**	**8**	**87.5%**	**9**	**77.8%**
Anhysbys	**413**	**80.1%**	**541**	**82.8%**	**224**	**83.5%**
Cefndir Asiaidd arall	**8**	**75.0%**	**6**	**66.7%**	**5**	**100.0%**
Cefndir Du arall	**3**	**100.0%**	**3**	**133.3%**	**2**	**100.0%**
Cefndir Cymysg arall	**7**	**85.7%**	**9**	**88.9%**	**12**	**83.3%**
Cefndir ethnig arall (o 2018/19 ymlaen)					**2**	**100.0%**
Gwyn	**1837**	**82.5%**	**1794**	**83.3%**		
Unrhyw gefndir Gwyn arall (o 2018/19 ymlaen)					**8**	**100.0%**
Cymreig/Seisnig/Albanaidd/ Gwyddelig/Prydeinig (o 2018/19 ymlaen)					**1969**	**86.7%**

Cyfanswm yr holl ddysgwyr	**2304**	**82.1%**	**2382**	**83.3%**	**2281**	**86.3%**

Cyflawnodd dysgwyr a oedd wedi nodi 'anhysbys' neu 'cymysg arall' ar gyfer eu hethnigrwydd gyfraddau llwyddiant o 83.5% ac 83%, sy'n is na chyfartaledd y Coleg, 86.3%. Cyflawnodd dysgwyr a oedd wedi nodi 'Asiaidd', 'Cymysg Gwyn ac Asiaidd' a 'Cymysg Gwyn a Du Affricanaidd' gyfraddau llwyddiant 100%. Mae angen ymchwilio i'r cynnydd yn nifer y dysgwyr a nododd 'anhysbys' fel y gellir rhoi cynllun targededig ar waith er mwyn gwella. Mae'n amlwg o'r data uchod bod rhai grwpiau o ddysgwyr wedi dangos gostyngiad yn eu cyfraddau llwyddiant, ac felly bydd rhaid eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb.

6.3 Llwyddiant yn ôl Rhyw

Rhyw	**2016/17**		**2017/18**		**2018/19**	
	Nifer y dysgwyr	**Llwyddiant**	**Nifer y dysgwyr**	**Llwyddiant**	**Nifer y dysgwyr**	**Llwyddiant**
Benywod	**1115**	**82.8%**	**1170**	**84.4%**	**1111**	**87.8%**
Gwrywod	**1189**	**81.5%**	**1212**	**82.3%**	**1170**	**84.8%**
Cyfanswm yr holl ddysgwyr	**2304**	**82.1%**	**2382**	**83.3%**	**2281**	**86.3%**

Mae dysgwyr benywaidd yn parhau i berfformio'n well na dysgwyr gwrywaidd, am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r bwlch perfformiad wedi cynyddu hefyd dros amser, o 1.30% yn 2016/17, i 2.10% yn 2017/18 a 3% yn 2018/19. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gyfradd uchel o ddysgwyr gwrywaidd yn y meysydd cwricwlwm Chwaraeon, Adeiladwaith a Pheirianneg, sy'n feysydd sy'n tangyflawni o gymharu â'r Coleg cyfan, ac yn feysydd sy'n destun cymorth wedi'i ganolbwyntio. Mae Peirianneg eisoes wedi gweld cynnydd o 4% yn ei chyfraddau llwyddiant rhwng 2017/18 a 2018/19. Bydd Adeiladwaith a Pheirianneg hefyd yn cael budd o strategaeth ystadau uchelgeisiol y Coleg, sy'n cynnwys adeiladu Academi STEAM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Celf a Mathemateg) newydd ar Gampws Pencoed, a fydd yn derbyn ei garfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Medi 2021. Caiff effaith y cyfleuster dysgu ac addysgu newydd hwn ar y bwlch cyflawniad rhwng y rhywiau ei monitro'n ofalus.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y cyfraddau llwyddiant ar gyfer dysgwyr gwrywaidd wedi dangos gwelliant cyson dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda chynnydd o 3.3% 2016/17 a 2018/19.

6.4 Llwyddiant yn ôl Cymorth Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Cymorth LCA	**2016/17**		**2017/18**		**2018/19**	
	Nifer y dysgwyr	**Llwyddiant**	**Nifer y dysgwyr**	**Llwyddiant**	**Nifer y dysgwyr**	**Llwyddiant**

Myfyrwyr LCA	**886**	**82.6%**	**889**	**85.0%**	**781**	**85.9%**
Cyfanswm yr holl ddysgwyr	**2304**	**82.1%**	**2382**	**83.3%**	**2281**	**86.3%**

Yn 2018-19, daeth 23.8% o ddysgwyr Coleg Penybont o'r ardaloedd uchaf o ran amddifadedd. Bridgend College's learners were from the highest areas of deprivation. Nododd Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru (27 Chwefror 2020) fod anghydraddoldebau sylweddol o ran deilliannau dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd yn 2018/19. Nid yw hyn yn wir yng Ngholeg Penybont, lle bu'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau llwyddiant dysgwyr a oedd yn derbyn LCA a chyfradd gyfartalog y Coleg yn finimol yn 2018/19. Fodd bynnag, rhaid nodi bod cyflawniad y rheini a dderbyniodd LCA yn is na chyfartaledd y Coleg am y tro cyntaf mewn tair blynedd, felly caiff hyn ei nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb er mwyn sicrhau y caiff camau eu cymryd i atal y bwlch rhag lledu.

6.5 Llwyddiant yn ôl gallu i gyfathrebu trwy'r Gymraeg

Medrusrwydd y Myfyrwyr yn y Gymraeg	**2016/17**		**2017/18**		**2018/19***	
	Nifer y dysgwyr	**Llwyddiant**	**Nifer y dysgwyr**	**Llwyddiant**	**Nifer y dysgwyr**	**Llwyddiant**
Siaradwyr Cymraeg Rhugl	**113**	**84.1%**	**81**	**85.2%**	**143**	**87.4%**
Siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn Rhugl	**232**	**84.5%**	**208**	**85.1%**		
Ddim yn Siarad Cymraeg	**1959**	**81.7%**	**2093**	**83.1%**	**2138**	**86.2%**
Cyfanswm yr holl ddysgwyr	**2304**	**82.1%**	**2382**	**83.3%**	**2281**	**86.3%**

Mae Coleg Penybont yn parhau i wneud cynnydd yn unol â'r strategaeth Cymraeg 2050 a'n dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg, yn enwedig o ran cysondeb bodloni'r Safonau sy'n ymwneud â hawliau'r myfyrwyr. Mae angen strategaeth mwy targededig ar gyfer datblygu ac uwchsgilio timau cwricwlwm a darpariaethau cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog, sy'n canolbwyntio ar feysydd cwricwlwm blaenoriaeth.

Mae'n amlwg bod cynnydd cynaledig yng nghyflawniad y dysgwyr sy'n gallu siarad Cymraeg dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda siaradwyr Cymraeg yn perfformio'n well na chyfartaledd y Coleg yn gyson.

Cynlluniodd a rhoddodd y Coleg amrywiaeth o fentrau ar waith i ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr a staff yn 2018/19. Mae cynnydd pellach wedi bod yn nifer y bobl a astudiodd y cymhwyster Iaith ar Waith ar Lefel Mynediad 1 a 2, gyda 413 dysgwr yn ymgymryd â'r cymhwyster. Cynigir hyfforddiant Iaith ar Waith i bob darlithydd, a chaiff chefnogaeth a mentora un i un eu cynnig i staff sy'n dysgu Cymraeg a staff sy'n rhugl ond nad ydynt yn ddigon hyderus i gyflwyno drwy'r Gymraeg.

7. Ymgysylltiad ac Ymgynghoriad

Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu â rhanddeiliaid priodol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Wrth baratoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ymgynghorwyd â: -

- yr Uwch Tîm Arwain
- y Grŵp Llywio ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- y Grŵp Gweithio ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Staff a myfyrwyr

Mae ymgysylltu â sefydliadau allanol, er engrhaifft Disability Committed, Purple Portal, Mind Cymru, Chwarae Teg, yn allweddol i'n llwyddiant.

Mae gan y Coleg Strategaeth Ymgysylltu Myfyrwyr ar gyfer proses ffurfiol o ymgynghori â myfyrwyr ynghylch pynciau amrywiol.

Yn nhermau gwneud penderfyniadau a dylanwadu, mae dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn materion y Coleg trwy gael cynrychiolaeth mewn fforymau dysgwyr amrywiol, megis Cynrychiolwyr Cwrs, StARs, Myfyriwr-lywodraethwyr ar y Corff Llywodraethu, a Llysgenhadon Coleg Penybont.

Mae'r Uwch Dîm Arwain a rheolwyr y Coleg yn ymgymryd â 'Theithiau Dysgu' o gwmpas campysau'r Coleg yn rheolaidd i gael barn y dysgwyr am gyfleusterau a gwasanaethau'r Coleg.

Mae adborth o arolygon megis arolwg yr elusen Mind a'r arolwg Times 100, e-byst, sesiynau galw heibio, a theithiau o gwmpas pob campws i gasglu barn staff a myfyrwyr yn cynnig cyfle i bawb fynegi eu barn.

Caiff digwyddiadau, megis diwrnodau datblygu staff sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, ac yn ymgynnull staff a dysgwyr mewn ymdrech i wella ymgysylltiad a chyfathrebiad.

Caiff arolwg ar-lein ei greu pob blwyddyn er mwyn ceisio ennyn dealltwriaeth o ganfyddiadau'r dysgwyr o ran cyfleusterau, gwasanaethau ac arferion y Coleg. Anogir dysgwyr i leisio eu barn am gyfleusterau, gwasanaethau ac arferion y Coleg dwywaith y flwyddyn, yr arolygon cynefino ac ymadael y dysgwyr.

8. Amcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

1. **Dysgu, Addysgu, a Chyfenwi'r Cwricwlwm**
   Nod: sicrhau bod profiadau dysgu'n gynhwysol ac yn hygyrch, ac yn cefnogi myfyrwyr i fod yn bopeth y gallant fod.
2. **Y Gymraeg a Dwyieithrwydd**
   Nod: sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chymorth yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddarparu profiad dwyieithog.
3. **Profiad y Dysgwr, Cymorth, a Llais y Dysgwr**
   Nod: denu, cadw, ac ymgysylltu poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr.
4. **Cyflogaeth a Datblygiad y Gweithlu**
   Nod: adnabod a dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd trwy gael gwared â rhwystrau a dileu gwahaniaethu.
5. **Iechyd a Lles**
   Nod: hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy'n sicrhau bod dysgwyr a staff yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus, yn iach, yn emosiynol wydn, ac yn fodlon.
6. **Amgylchedd**
   Nod: hyrwyddo amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol sy'n galluogi pawb i fod y fersiwn gorau o'u hunain.
7. **Caffael**
   Nod: sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei ymgorffori yn ein proses gaffael a bod ein partneriaid yn rhannu'r un gwerthoedd a moeseg â Choleg Penybont.

*Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am yr amcanion hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Coleg ar gyfer 2019-2022

Caiff yr amcanion hyn eu monitro ar lefel gorfforaethol, a'r Grŵp Strategol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) fydd yn gyfrifol amdanynt.

Bydd pob adran yn gyfrifol am fonitro a gweithredu'r cynllun ar lefel leol trwy weithdrefnau ac arferion, ac adrodd drwy'r broses gynllunio ac i'r Grŵp Strategol ar gyfer EDI, yn ôl yr angen.

Mae dulliau a ddefnyddir i werthuso cynnydd yn cynnwys:

- Adroddiad EDI blynyddol
- Arolygon myfyrwyr a staff
- Dadansoddi data am nodweddion gwarchodedig a'u llwyddiannau, cyflawniad a dargadwedd
- Monitro cwynion ffurfiol mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig
- Cyflawni amcanion a nodwyd yn y cynllun EDI.

9. Deilliannau Cyraeddadwy Allweddol

1. Adroddiad EDI blynyddol yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ar wefan Coleg Penybont **www.bridgend.ac.uk** ac ar borth y staff a'r myfyrwyr.
2. Cyflawni'r gweithredoedd a nodwyd yn y cynllun EDI.
3. Adrodd i'r Grŵp Llywio ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun (bob tymor)

10. Crynodeb

Mae'r Coleg wedi gwella'n sylweddol o ran casglu data mewn modd mwy ystyrlon a chynhwysfawr. Cefnogwyd hyn gan ein dull pobl-ganolog, sydd wedi annog staff i rannu eu data, gan wybod y caiff hyn ei drin mewn modd cyfrifol ac at ddibenion eu cefnogi nhw i fod ar eu gorau.

Er bod gennym ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau ein bod ni'n cyflogi pobl ac yn darparu gwasanaethau mewn modd diogel a theg, ymdrechwn i wneud mwy. Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud er mwyn gwella ein harferion busnes yn nhermau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd monitro cydraddoldeb ar gyfer asesu a ydym yn cyflawni ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb. Mae asesiadau effaith wedi cael eu diweddaru i fod yn fwy gwerthfawr ac ystyrlon, ac mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi cael ei ddatblygu, ei roi ar waith, a bydd yn parhau i gael ei fonitro fel bod pob aelod staff yn gallu bod yn hyderus wrth eu defnyddio, gan gynnwys pobl o bob grŵp.

Er ein bod ni wedi gallu adrodd ar y gofynion penodol a osodwyd gan ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae llawer gennym i'w wneud o hyd i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu, fel y gallwn dynnu ar safbwyntiau a phrofiadau gwahanol.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein staff yn parhau i ddatblygu ac, wrth wneud hynny, yn cael dealltwriaeth eang o gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol a allai effeithio arnynt yn bersonol a gwella eu cymhwysedd ar lefel broffesiynol. Yn olaf, rhaid i ni barhau i sefydlu cydraddoldeb fel rhan o'n busnes bob dydd, nid fel rhywbeth eilradd, fel ein bod ni'n ei ystyried ym mhopeth a wnawn.

11. Cysylltwch â Ni

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, neu hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni:
E-bost: jobs@bridgend.ac.uk
Ffôn: 01656 302302 estyniad 660
Post: Adnoddau Dynol, Coleg Penybont, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3DF